

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

<http://senedd.tv/cy/4621>

Dyddiad: Dydd Mercher, 21 Mawrth 2018

Amser: 09.01 – 11.26

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Jane Hutt AC Nick Ramsay AC David Rees AC
Tystion:	Kate Cabbage, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru Victoria Lloyd, Cyfarwyddwr Dylanwadu a Datblygu Rhaglenni, Age Cymru Mary Wimbury, Fforwm Gofal Cymru Mario Kreft, Fforwm Gofal Cymru Sanjiv Joshi, Fforwm Gofal Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Katherine Thomas (Dirprwy Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Joanne McCarthy (Ymchwilydd)



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

	Christian Tipples (Ymchwilydd) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)
--	---

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC a Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

2 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Sesiwn dystiolaeth 3 (Age Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru)

2.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Victoria Lloyd, Prif Swyddog Gweithredol Interim, Age Cymru; a Kate Cabbage, Uwch Reolwr Materion Allanol, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ar ei ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio.

2.2 Cytunodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ddarparu rhagor o fanylion ar:

- y newidiadau i gomisiynu gwasanaethau sy'n deillio o anghenion mwy cymhleth; a
- cholli gwelyau seibiant.

3 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Sesiwn dystiolaeth 4 (Fforwm Gofal Cymru)

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mary Wimbury, Prif Weithredwr, Fforwm Gofal Cymru; Mario Kreft, Cadeirydd, Fforwm Gofal Cymru; a Sanjiv Joshi, Aelod o'r Bwrdd, Fforwm Gofal Cymru ar ei ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio.

3.2 Cytunodd Fforwm Gofal Cymru i ddarparu copi o adroddiad diweddar gan Knight Frank.

4 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Sesiwn dystiolaeth 5 (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru)

4.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Caiff y sesiwn dystiolaeth ei hail-drefnu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Trafod y dystiolaeth

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

7 Trafod y flaenraglen waith

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr haf.

8 Proses y gyllideb ar gyfer deddfwriaeth – Papur cwmpasu

8.1 Trafododd y Pwyllgor bapur cwmpasu ar gostau deddfwriaeth a chytunodd i gynnal ymchwiliad.

9 Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016: Offerynnau Statudol ym maes treth

9.1 Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau statudol a ganlyn, gan gytuno i gyflwyno adroddiad arnynt.